# Hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio, paratoi a gwerthuso cyflwyniadau i gwrdd â chanlyniadau dysgu penodol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth gynllunio i hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
2. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i nodi pwrpas cyflwyniadau a chael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen
3. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gytuno ar y canlyniadau a'r dulliau y byddwch yn eu defnyddio i roi cyflwyniadau
4. amlinellu'r nodau a'r canlyniadau disgwyliedig wrth gyflwyno
5. darparu gweithgareddau sy'n annog rhyngweithio a chyfranogi wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
6. rhoi mynediad at ddeunyddiau dysgu a datblygu mewn fformatau hygyrch
7. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gael gafael ar adnoddau, offer ac amgylcheddau sy'n addas ar gyfer cyflwyniadau a gweithgareddau dysgu a datblygu, ac i'w darparu
8. adolygu neu gwblhau asesiadau risg i hwyluso cyflwyniadau a gweithgareddau dysgu a datblygu
9. casglu adborth am gyflwyniadau a gweithgareddau dysgu a datblygu
10. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i werthuso'r adborth am gyflwyniadau a gweithgareddau dysgu a datblygu, a nodi arferion da a mynd i'r afael â'r newidiadau sydd eu hangen
11. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
12. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
2. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
3. sut mae cael gafael ar wybodaeth, adnoddau a chefnogaeth a'u hadolygu wrth hwyluso dysgu a datblygiad gan ddefnyddio cyflwyniadau
4. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
5. dylanwad diwylliant a chefndir ar ryngweithio a chyfranogi mewn gweithgareddau dysgu a datblygu
6. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
7. egwyddorion asesiadau risg i hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
8. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod gweithgareddau dysgu a datblygu
10. sut mae defnyddio gwahanol fathau o ddysgu, arddulliau unigol ac amrywiaeth o dechnegau cyflwyno i strwythuro cyflwyniadau
11. sut mae cynllunio, hybu a pharatoi gweithgareddau dysgu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
12. gwahanol dechnegau i reoli deinameg grŵp yn ystod cyflwyniadau a gweithgareddau dysgu a datblygu
13. sut mae addasu cyflwyniadau a gweithgareddau i gwrdd â dewisiadau ac anghenion sy'n newid, gan barhau i weithio tuag at ganlyniadau a gynlluniwyd
14. sut mae defnyddio sgiliau cyfathrebu effeithiol i ymgysylltu â dysgwyr a'u hysgogi, a pham fod hyn yn bwysig
15. y mathau o heriau i ddysgu a sut i fynd i'r afael â'r rhain
16. sut mae gwerthuso p'un a lwyddwyd i gwrdd â chanlyniadau ai peidio wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau

18. theorïau sy’n berthnasol i hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
19. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
20. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
21. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
22. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Hwyluso dysgu a datblygu gan ddefnyddio cyflwyniadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD342 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Hwyluso dysgu a datblygu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |